

**Comisiwn Trafnidiaeth De-ddwyrain Cymru**

**Glan yr Afon, Casnewydd**

**11.00 – 15.00 Dydd Mercher, 4 Rhagfyr 2019**

**Yn bresennol:**

Lord Burns (Cadeirydd)

Lynn Sloman

James Davies

Stephen Gifford

Elaine Seagriff

Jen Heal

Peter Jones

Peter McDonald (Ysgrifenyddiaeth)

Matt Jones (Ysgrifenyddiaeth)

Sam Thomas (Ysgrifenyddiaeth)

Karen Fulford (Ysgrifenyddiaeth)

James Dowling (Ysgrifenyddiaeth)

Gareth Potter (Trafnidiaeth Cymru)

Will Wooten (Tîm Technegol)

Geoff Ogden (Trafnidiaeth Cymru)

Andy Holder (Trafnidiaeth Cymru)

**Ymddiheuriadau**

Beverley Owen

**Cyflwyniad a diweddariad gan yr Ysgrifenyddiaeth**

Cafwyd diweddariad gan yr Ysgrifenyddiaeth am yr hyn yr oeddent wedi bod yn ei wneud yn ddiweddar.

**Y Diweddaraf am yr Adroddiad Cynnydd**

Aeth y Comisiwn drwy fersiwn ddrafft o'r Diweddaraf am yr Adroddiad Cynnydd. Cadarnhaodd y Comisiwn union natur pob un o'r argymhellion. Cytunwyd ar yr adroddiad a fydd yn cael ei gyhoeddi yn ystod yr wythnos yn dechrau ar 16 Rhagfyr.

**Cynlluniau ar gyfer 2020**

Bu'r Comisiwn yn trafod sut orau i drefnu gwaith yn 2020. Aeth ati hefyd wrth drafod i ymdrin â'r gwaith yr oedd angen ei wneud ar ddadansoddi ac ar amlinellu'r

cyd-destun fel y bo modd deall y materion dan sylw, pennu hyd a lled maes yr astudiaeth, pennu'r llinell sylfaen, a nodi ac asesu argymhellion posibl.

Roedd y Comisiwn yn awyddus i dreulio cymaint o amser ag y bo modd yn ystyried ac yn asesu atebion posibl.

### **Potensial y Rheilffyrdd**

Cafwyd cyflwyniad gan Trafnidiaeth Cymru a'r Tîm Technegol ar y galw ymhlith teithwyr a chpasiti ar y rheilffyrdd yn Ne-ddwyrain Cymru.

Trafodwyd y cyfleoedd a'r cyfyngiadau a oedd yn gysylltiedig â chynyddu nifer y teithwyr a chreu mwy o gapasiti ar rwydwaith De-ddwyrain Cymru drwy wella capasiti'r gwasanaethau a oedd yn bodoli eisoes, drwy drefnu bod trenau ar gael yn amlach, cyflwyno gorsafoedd newydd ar lwybrau a oedd yn bodoli eisoes, a chyflwyno llinellau a gorsafoedd newydd i wasanaethau rhanbarthau newydd. Aed ati hefyd i edrych ar yr effaith y gallai datblygiadau'r Metro ei chael ar dagfeydd ar yr M4.

### **Ennyn Diddordeb a Thrafod gyda Rhanddeiliaid**

Rhoddodd yr Ysgrifenyddiaeth ddiweddiariad i'r Comisiwn am y gweithdai a gynhaliwyd ym mis Tachwedd ac ym mis Rhagfyr er mwyn ennyn diddordeb rhanddeiliaid a thrafod gyda nhw. Bydd crynodeb yn amlinellu'r hyn a drafodwyd yn ystod y gweithdai ar gael erbyn y cyfarfod nesaf. Cafodd y Comisiwn wybod hefyd am y bwriad i fynd ati yn gynnar yn 2020 i wneud rhagor o waith ymgysylltu â rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

### **Dadansoddi traffig**

Bydd rhagor o waith dadansoddi traffig wedi'i wneud erbyn y cyfarfod nesaf a bydd modd ei drafod bryd hynny. Yn fras, y bwriad yw ehangu'r gwaith dadansoddi sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd ar gymudwyr i gynnwys llif traffig ar ddydd Gwener, dydd Sadwrn a dydd Gwener. Hefyd, mae system llif-stoc symlach o lifau traffig wrthi'n cael ei datblygu er mwyn rhoi rhagor o fanylion i'r Comisiwn ynghylch o le mae traffig yn dod ac i le y mae'n mynd.

### **Edrych i'r dyfodol**

Bydd cyfarfod nesaf y Comisiwnwyr yn cael ei gynnal ddydd Iau, 23 Ionawr.